



Sefydlu fersiwn Gymraeg o'r GAD-7 ar gyfer pobl ifanc

Dr Llinos Haf Spencer, Beryl Cooledge, Delyth Prys, Prifysgol Bangor
Dr Sara Hammond-Rowley, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr



Cyflwyniad

Yn y blynyddoedd diwethaf, bu ffocws cynyddol ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Er gwaethaf yr angen cynyddol am ymwybyddiaeth iaith a diwylliant mewn ymchwil iechyd, mae diffyg mesurau iechyd ar gael yn Gymraeg i wella dibynadwyedd a dilysrwydd astudiaethau a gynhelir yng nghyd-destun dwyieithog Cymru, ac mae hyn yn arbennig o wir am fesurau sydd i gael eu cwblhau gan bobl ifanc. Mae LLAIS, sy'n ran o Uned Treialon NORTHWORTH ac wedi'i ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, wedi bod yn rhan o'r broses o ddilysu tair mesur iechyd a lles ar gyfer prosiect ADTRAC (ADTRAC, 2018) yn ddiweddar.

Nodau ac amcanion dilysiad GAD-7

Blaenoriaethu a sefydlu fersiwn Gymraeg o fesur lles GAD-7 trwy:

- Ymgymryd â chyfieithu a dilysu fersiwn Gymraeg o fesur GAD-7 yn ieithyddol er budd y cyd-destun clinigol yn ogystal â chyd-destun ymchwil.
- Gwneud y fersiwn Gymraeg o'r mesur GAD-7 ar gael ar www.micym.org, i gynorthwyo ei ddefnydd gan glinigwyr, ymchwilwyr a darparwyr gwasanaethau eraill.

Dull

Dilynwyd proses gam wrth gam cynhwysfawr gyda chamau rheoli ansawdd a phroffion gwybyddol er mwyn sicrhau bod cywerthedd cysyniadol a semantig yn cael eu cyflawni. Roedd y camau fel a ganlyn. (Gweler <http://micym.org/llais/static/translationsCymraeg.html>)


"Mae pryder a gorbryder yn effeithio ar lawer o bobl ifanc fel ni"

"Anxiety affects many young people like us"

Sylw gan berson ifanc



Grŵp Ffocws LLAIS / ADTRAC yn Galeri Caernarfon 26/06/2018



Canlyniadau

Yn ogystal â chyfieithwyr proffesiynol, terminolegydd iaith a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, rhoddodd deuddeg o bobl ifanc o Ogledd Cymru eu barn ar fersiwn o'r GAD-7 iaith Gymraeg mewn sesiynau grŵp ffocws neu mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb i sicrhau eglurder y cwestiynau. Gwnaethpwyd newidiadau i'r geiriad yn seiliedig ar y trafodaethau hyn a sylwadau terfynol y terminolegydd iaith. Er enghraifft:

Generalised Anxiety Disorder -7 (GAD-7)	Fersiwn Gymraeg ar gyfer ei roi ar brawf	Sylwadau gan y bobl ifanc	Sylwadau gan y terminolegydd	Y fersiwn Gymraeg derfynol
Over the last 2 weeks, how often have you been bothered by any of the following problems?	Yn ystod y 2 wythnos diwethaf, pa mor aml mae'r problemau yma wedi dy boeni?	Awgrymwyd bod 'di' yn cael ei ychwanegu at ddiwedd y frawddeg.	Mae'n dderbyniol i ychwanegu y gair 'di' (you).	Yn ystod y 2 wythnos diwethaf, pa mor aml mae'r problemau yma wedi dy boeni di?
Not being able to stop or control worrying	Ddim yn gallu stopio poeni na'i reoli	Awgrymwyd bod y frawddeg yn gorffen yn rhy fuan a bod angen y gair 'poeni' ar ddiwedd y frawddeg	Mae'n dderbyniol i ychwanegu y gair 'poeni' er mwyn gwneud y cwestiwn yn gliriach.	Ddim yn gallu stopio poeni na rheoli'r poeni.
Being so restless that it is hard to sit still	Bod mor aflonydd fel ei bod yn anodd eistedd yn llonydd	Awgrymwyd i roi 'hi'n' yn lle 'yn'.	Mae'n dderbyniol i newid 'yn' o'r frawddeg. Mae'r gwella'r frawddeg.	Bod mor aflonydd fel ei bod hi'n anodd eistedd yn llonydd.
How difficult have these problems made it for you	Pa mor anodd y mae'r problemau yma wedi gwneud pethau i ti?	Awgrymwyd nad oedd angen yr 'y' o gwbl.	Mae'n dderbyniol i dynnu yr 'y' o'r frawddeg.	Pa mor anodd mae'r problemau yma wedi gwneud pethau i ti?

Gweler y mesur Cymraeg ar wefan www.micym.org



"Mae pryder ac iselder ysbryd yn effeithio ar lawer o bobl ifanc yng Nghymru"

"Anxiety and depression affect many young people in Wales"

Sylw gan glinigydd

ADTRAC

RHF ADNABOD

ENW'R CYFRANOGWR

DYDDIAD YR ASESAD

AMSER YR ASESAD

SUT MAE PETHAU?

Yn ystod y 2 wythnos diwethaf, pa mor aml mae'r problemau yma wedi dy boeni di?

Yn ystod y 2 wythnos diwethaf, pa mor aml mae'r problemau yma wedi dy boeni di?	0	1	2	3
1. Taeln i'w marfu, pryder neu'n iawn tensiwn	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
2. Ddim yn gallu stopio poeni na rheoli'r poeni	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
3. Poeni gormod am wahanol bethau	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
4. Cael trafferth ymlacio	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
5. Bod mor aflonydd fel ei bod hi'n anodd eistedd yn llonydd	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
6. Mhnd yn ffin neu'n cynhyrfu'n hawsd	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd
7. Taeln i'w marfu fel petai rhywbeth ohnadwy ar ddigwydd	Dim o gwbl	Ychydig o ddyddiau	Mwy na hanner y dyddiau	Bron bob dydd

SGŌR AR GYFER POB COLOFN

8. Pa mor anodd mae'r problemau yma wedi gwneud pethau i ti?

Ddim yn anodd o gwbl

Ychydig yn anodd

Anodd iawn

Ofloddy o anodd

DIODDELL DATA

Rwyf yn deall bod yr holl wybodaeth a nodir ar y ffurflen hon yn amodol ar ddarpariaethau rheoliadau Diogelu Data Cyffwrdd (GDPR) 2018.

Tynnu eiddo hysbysu at wybodaethau Prifysgol Bangor a safonau a ganiatwyd:

- Mybysiad Prifysgol Bangor Llandrillo Menai: <https://beta.llw.ac.uk/llais>
- Polisi Prifysgol Bangor Llandrillo Menai: www.llw.ac.uk/gdpr
- Polisi Prifysgol Bangor Llandrillo Menai: www.llw.ac.uk/gdpr

Cedw i'r wybodaeth hon tan 2024.

ARWYDDWYD

DYDDIAD

SGŌR

ENW'R SWYDDOG ADTRAC

DYDDIAD

Mae fersiwn Gymraeg y GAD-7 ar gyfer pobl ifanc ar gael ar wefan www.micym.org. Gellir ei lawrlwytho a'i ddefnyddio yn rhad ac am ddim.

Casgliad

Ers mis Hydref 2018, mae'r GAD-7 ar gyfer pobl ifanc wedi bod ar gael i ddarparwyr gwasanaethau ac ymchwilwyr ei ddefnyddio yng Nghymru. Bydd y mesur iechyd hwn yn helpu pobl ifanc i fynegi eu cyflwr iechyd meddwl yn Gymraeg. Mae gwaith dilysu ieithyddol LLAIS yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at sefydlu systemau cadarn i sicrhau cynnal a chyflwyno ymchwil o'r ansawdd uchaf sy'n cwrdd â gofynion rheoli a llywodraethu ymchwil wrth hyrwyddo dulliau methodolegol o arwyddocâd rhyngwladol. Hyd yn hyn, mae 44 o fesurau ar gael o wefan www.micym.org ac mae tua 40 o'r rhain wedi eu dilysu'n ieithyddol gan LLAIS, Uned Treialon NORTHWORTH.

Cyfeiriadau
ADTRAC. (2018). ADTRAC - Grŵp Llandrillo Menai. Mynediad 20 Mawrth 2018, o <https://www.gllm.ac.uk/adtrac/>
Neagle, L., Brown, M., Griffiths, J., Millar, D., Reckless, M., David, H., ... Morgan, J. (2018). *Mind over Matter: A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales*. National Assembly for Wales. Retrieved from <https://www.assembly.wales/laid/documents/cr-ld11522/cr-ld11522-e.pdf>
Spitzer, R. L., Kroenke, K., Williams, J. B. W., & Löwe, B. (2006). A Brief Measure for Assessing Generalized Anxiety Disorder: The GAD-7. *Archives of Internal Medicine*, 166(10), 1092–1097. <http://doi.org/10.1001/archinte.166.10.1092>
Wild D, Grove A, Martin M, Eremenco S, McElroy S, Verjee-Lorenz A & Erikson P (2005). Principles of good practice for the translation and cultural adaptation process for patient-reported outcomes (PRO) measures: Report of the ISPOR task force for translation and cultural adaptation. *Value in Health*, 8 (2), 94-104.

Os oes gennych unrhyw ymholiad, cysylltwch â:
Beryl Cooledge or Dr Llinos Haf Spencer
Cyfarwyddwr LLAIS Swyddog Ymchwil LLAIS
Uned Dreialon NORTHWORTH Trials Unit, Y Wern
Safle'r Normal Site, Prifysgol Bangor University
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ
Ffôn: 01248 383153 Ffôn: 01248 38 3171
E-bost: B.cooledge@bangor.ac.uk E-bost: L.spencer@bangor.ac.uk